Rhifyn 5

Newyddion Diweddaraf y Dwyrain




## Helo

Croeso i'ch newyddion diweddaraf
o Ysgol Uwchradd y Dwyrain.

# NEWYDDION DIWEDDARAF Y DWYRAIN

## Eich Plant. Dyfodol Caerdydd.

## UCHAFBWYNTIAU - edrychwch y tu mewn i gael y manylion llawn!

- Ysgol Uwchradd y Dwyrain yn sefydlu yn y tymor cyntaf
- Ymgynghori ar y safle newydd ar gyfer Eastern High
- Llwyddiant yr Ysgol gyda Chwaraeon





## Ysgol newydd i bawb. Dechrau newydd i bawb

Diolch a da iawn chi, rydym wedi'i wneud! Agorodd Ysgol Uwchradd y Dwyrain ei drysau yn swyddogol am y tro cyntaf ar 9fed Medi 2013.

Gyda'r tymor cyntaf yn awr yn dod i ben, gallwn i gyd edrych yn ôl a bod yn falch o'r hyn rydym wedi'i gyflawni ac edrych ymlaen at yr amseroedd cyffrous sydd i ddod.

Rydym wedi bod yn siarad gyda rhai o'r disgyblion, staff a Chadeiryddion y Llywodraethwyr er mwyn canfod eu profiadau yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain. I weld beth wnaethon nhw ei ddweud, darllenwch ymlaen…

## Gyda'ch cefnogaeth chi rydym eisiau i'r safonau hyn barhau.

Bydd rhai ohonoch chi wedi sylwi, neu bydd eich plant wedi sôn, bod gennym bolisi o gyfarfod a chyfarch disgyblion mewn tri mynediad gwahanol ar ddechrau a diwedd bob diwrnod ysgol. Rydym ni'n credu bod hyn yn gyfle cadarnhaol i ddisgyblion deimlo eu bod yn cael eu croesawu, ac ar yr un pryd i ni sicrhau eu bod yn barod ar gyfer yr ysgol gyda gwisg ysgol a chyfarpar llawn. Rydym yn sicr eich bod chi, fel rhieni, yn cefnogi hyn fel ffocws newydd yr ysgol ar godi safonau a chyrhaeddiad."

**Karen Gittins**
Pennaeth Gweithredol



"Ew, mae hi wedi bod yn wych, yn wir. Gan fy mod i'n newydd sbon i'r ardal, cefais groeso cynnes iawn, a diolch o galon i chi. Gallaf weld potensial mawr yn yr ysgol. Mae'r disgyblion yn wych ac maen nhw wedi setlo gyda'i gilydd yn ardderchog, mor dda yn wir na allaf ddweud pa ddisgyblion sy'n dod o ba ysgol! Mae'r staff wedi bod yn anhygoel ac mae cynrychiolwyr o'r awdurdod lleol wedi bod o gymorth gwirioneddol, yn gyntaf drwy gyflawni agoriad yr ysgol mewn pryd ym mis Medi ac yn ail, yn yr adnoddau ychwanegol a ddarparwyd yn gyflym ganddyn nhw i ganfod lleoliad amgen ar gyfer addysg oddi ar y safle gyda rhybudd mor fyr; mae Sion Lewis a Stephen Gerrard yn haeddu sylw arbennig am eu hymdrechion i wneud hyn ddigwydd! Mae'n amser cyffrous i ni a dw i eisiau i hon fod y flwyddyn orau erioed i'r disgyblion a'r staff, gan arwain at y canlyniadau gorau rydym wedi'u cael erioed! Gyda'n gilydd, gallwn gyrraedd y nod."



**Wendy Rees**,
Prifathrawes Weithredol

"Rydym yn hapus iawn gyda sut mae'r tymor cyntaf wedi mynd. Byddwn yn hoffi diolch i rieni am eu cefnogaeth ar ddechrau'r tymor a phwysleisio pa mor falch yr ydym, fel yr ydych chi dw i'n siŵr, o'r ffordd roedd y disgyblion wedi cymryd at eu gwisg ysgol newydd. Maen nhw wedi gosod eu safonau eu hunain yn wir, sy'n wych!"

**Dywedodd y Cynghorydd Derrick Morgan**
Cadeirydd Corff Llywodraethol Dros Dro Ysgol Uwchradd y Dwyrain



"Roeddwn i wrth fy modd gyda'r effaith gadarnhaol mae agor Ysgol Uwchradd y Dwyrain wedi'i gael ar bobl ifanc y cymunedau lleol. Dw i'n eu gweld bob dydd yn cerdded i'r ysgol yn eu blaserau trwsiadus, yn dal eu pennau'n uchel gyda balchder mawr. Ac felly y dylen nhw, maen nhw'n edrych yn rhagorol. Mae'r ysgol yn ffynnu, gyda'r disgyblion a'r staff o'r ddwy ysgol yn cymysgu'n dda. Maen nhw wedi profi'r amheuwyr yn anghywir, mae wedi gweithio ac fe fydd yn gweithio ac mae'n mynd i fod yn well, gyda'r cynlluniau ar gyfer safle'r adeiladau celf o'r radd flaenaf yn dod yn eu blaenau.

Ar ran y Llywodraethwyr, hoffwn longyfarch pawb, dylech fod yn falch iawn ohonoch eich hunain, rydym yn falch iawn i fod yn cynrychioli Ysgol Uwchradd y Dwyrain."



**Dywedodd y Cynghorydd Bob Derbyshire**
Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd y Dwyrain

"Dw i'n hapus iawn i weld y plant o'r ddwy ysgol yn dod at ei gilydd mewn modd cadarnhaol ac yn edrych yn drwsiadus iawn yn eu gwisg ysgol newydd. Buaswn yn hoffi talu teyrnged i'r holl staff a'r swyddogion sydd wedi helpu er mwyn gwneud hyn yn bosibl."



**Sian Cole**
'Fy hoff beth am Ysgol Uwchradd y Dwyrain yw ein bod yn cael dysgu ac yn cael hwyl hefyd!'



**Kelsey Summerhayes**
'Dw i'n cael hwyl yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain pan rydym ni'n cael gwersi llawn hwyl fel Celf, Saesneg a Gwyddoniaeth'



**Asha**
'Yn Technoleg Dyluno llwyddais i roi fy sgiliau i ddefnydd da'



**Joshua Merrick**
'Fy hoff beth am Ysgol Uwchradd y Dwyrain yw bod yr holl athrawon yn garedig iawn wrth bawb yn yr ysgol a thydyn nhw ddim yn gweiddi'



**Asma Essa**
'Dw i'n hoffi gallu mynegi fy hun'



**Adam Cummings**
'Mae yna'n wastad athrawon i'ch helpu chi pan 'dach chi ar goll'



**Leah Fenton**
'Dw i'n hoffi Ysgol Uwchradd y Dwyrain oherwydd bod yna fwy o bobl i wneud ffrindiau â nhw, ac mae'r athrawon i gyd yn glên gyda mi, a dw i wrth fy modd gyda dydd Gwener oherwydd ein bod yn neidio o gwmpas yn y neuadd!'



**Anthony Price**
'Mae'r athrawon yn fy helpu pan dw i'n gweithio; maen nhw'n rhoi cyngor i mi'



**Casey Donaldson**
'Dw i wrth fy modd efo'r cantîn oherwydd ei bod yn cynhyrchu bwyd blasus'



**Leah Cleaver**
'Dw i'n hoffi Technoleg Dylunio oherwydd fy mod wedi dysgu sut i roi edau mewn nodwydd a defnyddio peiriant gwnïo'



**Samantha Bladen**
'Dw i'n mwynhau mynd i gymnasteg a chlybiau codwyr hwyl'

## Diolch oddi wrthym ni i chi

Roeddem eisiau cymryd y cyfle i ddiolch i chi am eich cefnogaeth a'ch amynedd yn ystod cau'r ysgol yn annisgwyl yn gynnar y tymor hwn oherwydd bod bacteria Legionella wedi'u darganfod yn yr ysgol.

Diogelwch a lles disgyblion yw ein blaenoriaeth, ac rydym yn gwerthfawrogi eich dealltwriaeth pam yr oeddem yn teimlo ei fod yn hanfodol i'r ysgol aros ar gau tra'r oedd y gwaith argyfwng yn mynd ymlaen i ladd y bacteria, a sicrhau nad oedd unrhyw risg i'r rhai hynny a oedd yn dysgu neu'n addysgu ar y safle.

Roedd gwaith ac ymdrechion caled swyddogion y Cyngor a chydweithwyr drwy wahanol sefydliadau yn cynnwys yr Heddlu, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cymunedau'n Gyntaf, Ysgol Uwchradd Llanedeyrn a Chanolfan Howardian yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr ac roedd yn helpu i leihau ymyrraeth cyn gymaint ag yr oedd hi'n bosibl.

Dywedodd y Brifathrawes Weithredol, Wendy Rees, "Cawsom ychydig o ddyddiau cyntaf ffantastig. Roeddem wedi torri ein calonnau ar ôl derbyn canlyniadau'r profion rheolaidd, ond gwnaethom weithredu cyn gynted ag yr oedd hi'n bosibl a chau'r ysgol. Hoffwn ddiolch i bawb a wnaeth ein helpu drwy'r adeg heriol hwn, ond roeddwn mor falch o weld pa mor gyflym gwnaeth y disgyblion a'r staff setlo yn ôl yn syth i bethau."

Bydd y profion rheolaidd yn parhau fel arfer.

## Y Trefniant ar gyfer Amseroedd Cinio

Ar ddechrau'r tymor, cododd rhai rhieni bryderon ynglŷn â'r toriadau cinio byrrach, felly er mwyn eich sicrhau bod gan bob disgybl ddigon o gyfle i fwyta eu cinio, roeddem yn meddwl y byddem yn cadarnhau'r trefniadau.

Mae gan bob disgybl 35 munud ar gyfer cinio, ac yn ystod yr amser hwn mae tri cantîn ar agor, y cyfan yn gweini prydau poeth ac oer ac amrediad o ddewisiadau iach ar gyfer pob archwaeth!

Mae'r trefniadau newydd wedi gweithio'n dda yn ystod y tymor cyntaf, gyda phob disgybl yn cael ei weini'n hawdd o fewn y 35 munud sydd ar gael mewn ffordd dawel a chwrtais gan adael 5 munud dda ar y diwedd lle mae'r cantinoedd yn wag a phob disgybl yn dychwelyd i'r gwersi ar amser.

Mae'r amser cinio byrrach yn golygu nad yw disgyblion yn cael gadael safle'r ysgol yn ystod amser cinio ac mae'n bleser gennym adrodd bod y trefniant hwn yn gweithio'n dda.

Gallwch weld y fwydlen ysgol ar wefan y Cyngor www.cardiff.gov.uk/schoolcatering neu ffoniwch **029 2087 2087**.



## Dillad Addysg Gorfforol yn syfrdanu'r gwrthwynebwyr!

Dylai'r holl ddisgyblion fod wedi derbyn eu dillad addysg gorfforol erbyn hyn. Mae'r ysgol yn falch iawn o'r ffordd y mae'r disgyblion yn edrych ac yn ymddwyn wrth ymweld ag ysgolion eraill. Mae'n sicr wedi cael effaith gadarnhaol ar berfformiad, yn ogystal! Mae'r ysgol eisoes wedi ennill nifer o ornestau ac mae'r ysgol yn falch iawn o hyn. Llongyfarchiadau!

Mae clybiau chwaraeon yn cael eu mynychu'n dda yn yr ysgol, yn cynnwys clwb y 'deryn cynnar', sy'n cael ei gynnal rhwng 8am a 8.30am.

Am y newyddion diweddaraf pam na wnewch chi ein dilyn ar Twitter @EasternHighPE

## Llwyddiant mewn chwaraeon hyd yma…

Mae sylw arbennig a llongyfarchiadau yn mynd i'r myfyrwyr canlynol sydd wedi disgleirio ac wedi gwneud yr ysgol yn falch iawn ohonyn nhw y tymor yma:

Mae Elijah Chilekwa ym Mlwyddyn 11 wedi cael ei ddewis i gynrychioli Cymru o dan 16 yn eu gêm Pêl-droed yn erbyn tîm Lloegr o dan 16. Bydd y gêm yn cael ei dangos ar Sky Sports Live yn ogystal!

Mae Megan Jones, Blwyddyn 9 wedi cael ei dewis i gynrychioli Carfan Pêl-rwyd o dan 14 Caerdydd a'r Fro.

Mae Chesney Christopher ym Mlwyddyn 9 wedi cael ei ddewis ar gyfer Carfan Datblygu Pêl-rwyd o dan 14 Prifysgol Caerdydd.

Y bechgyn sydd wedi llwyddo i gael chwarae i dimau Pêl-droed Caerdydd a'r Fro y tymor hwn yw:

- Daniel Raymond – Academi Dinas Caerdydd, o dan 16
- Liam Warman – Academi Dinas Caerdydd, o dan 14
- Sam Jacobsen – Academi Dinas Caerdydd, o dan 13
- Y brodyr Sam a Callum Pearson – y ddau yn cynrychioli Academi Dinas Caerdydd, o dan 12
- Scott McCarthy - Academi Dinas Caerdydd, o dan 12

Llongyfarchiadau i Dylan Amin, sydd wedi arwyddo i Aston Villa, o dan 15

Ac nid y bechgyn yn unig sy'n llwyddo mewn pêl-droed. Da iawn i Chelsea Deacon o Flwyddyn 8 sy'n cynrychioli Caerdydd a'r Fro a Dinas Caerdydd. Mae gan Chelsea dreial dros Gymru y mis hwn. Pob lwc iddi hi!

Da iawn i Leah Cornelius o Flwyddyn 8 a orffennodd yn yr 20fed safle allan o'r 220 rhedwr a gymerodd ran yng Ngornest gyntaf Traws-gwlad Caerdydd a'r Fro.

Newyddion 'Gym'tastig' i Megan Griffin o Flwyddyn 11 a ddaeth yn 3ydd yn y llofnaid, 2ail ar y cyfrwy trawst ac 2ail yn gyffredinol yng nghystadleuaeth Gymnasteg Ranbarthol Cymru.

Llongyfarchiadau i ddisgyblion blwyddyn 7 – Mia Evans, Laura Dawkes, Ffion O'Brien a Charlotte Hunter am ennill cystadleuaeth gymnasteg ysgolion Caerdydd yn Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd, gan sicrhau lle yn y rownd derfynol genedlaethol. Enillodd y merched bencampwriaeth Blwyddyn 7 Ysgolion Cymru yn y rownd derfynol. Cyflawniad gwych, llongyfarchiadau ferched!

Byddwn yn parhau i roi gwybod i chi am lwyddiant chwaraeon Ysgol Uwchradd y Dwyrain.

Y DIWEDDARAF AM YSGOL Y DWYRAIN

## Canolfan Ieuenctid Llanrhymni

Mae'r ganolfan wedi aros yn agored ac mae'n parhau i gynnig cyfleoedd gwych i bobl ifanc yr ardal, yn cynnwys stiwdio gerdd, bwrdd pŵl a chyfleusterau cyfrifiaduron. Bydd y ganolfan yn cael diwyg newydd dros yr ychydig wythnosau nesaf. Bydd y gwaith yn cynnwys:

- Atgyweiriadau i'r to a'r ffasgiâu
- Atgyweirio rheseli ysgolion to ar dalcenni'r adeilad
- Ailosod teils ar dalcenni'r adeilad
- Gosod drysau tân newydd
- Aildeilsio'r toiled
- Gwella'r goleuadau yn y cyntedd a'r mynediad yn y ffrynt.

Cyn gynted ag y mae'r gwaith hwn wedi'i gwblhau, byddwn yn trefnu rhoi 'ychydig o baent' ar y tu allan i'r adeilad i'w wneud yn fwy deniadol. Er mwyn darganfod pa wasanaethau y mae'r Ganolfan Ieuenctid yn ei ddarparu a'r cyfleoedd y maen nhw'n eu cynnig, ewch i **www.cardiff.gov.uk/youth** neu ffoniwch: **029 2077 8931**.

## Ymunwch â'n fforwm rhieni

Mae'r ysgol yn meddwl am gychwyn Fforwm Rhieni. Mae'r ysgol yn awyddus i annog cyn gymaint ag sy'n bosibl o fewnbwn gennych chwi, ar gyfer y flwyddyn bresennol sydd o'n blaenau ac wrth gynllunio ar gyfer yr ysgol newydd ym mis Medi 2014. Os oes gennych ddiddordeb mewn bod ynghlwm â hyn, edrychwch am fwy o wybodaeth o'r ysgol yn ystod y tymor nesaf.

# Cynllunio ar gyfer yr ysgol newydd – rhannwch eich sylwadau!

Rydym wrthi'n ymgynghori ar gartref parhaol i adeiladau cyfoes newydd Ysgol Uwchradd y Dwyrain.

Mae **DAU** ddewis:

- **Safle Coleg Caerdydd a'r Fro**
- **Safle Ysgol Uwchradd Llanrhymni**

Dewch i'r **CYFARFOD CYHOEDDUS** ar **8 Ionawr**, **6.30pm** tan 8.00pm, yng Nghanolfan Hamdden y Dwyrain neu i un o'r nifer o sesiynau galw heibio sy'n cael eu cynnal. Dyma'r cyfle i ddweud eich dweud.

### Sesiynau Galw Heibio

| | | |
|---|---|---|
| 17 Rhagfyr | 1pm-3pm | Llyfrgell Llaneirwg |
| 18 Rhagfyr | 2pm-4pm | Llyfrgell Llanrhymni |
| 19 Rhagfyr | 11am-1pm | Llyfrgell Tredelerch |
| 7 Ionawr | 5pm-7pm | Canolfan Hamdden y Dwyrain |
| 9 Ionawr | 5pm-7pm | Llyfrgell Llaneirwg |
| 13 Ionawr | 5pm-7pm | Llyfrgell Tredelerch |
| 15 Ionawr | 5pm-7pm | Canolfan Hamdden y Dwyrain |
| 17 Ionawr | 11am-1pm | Llyfrgell Llanrhymni |
| 18 Ionawr | 10am-1pm | Canolfan Hamdden y Dwyrain |

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ar www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolion neu drwy ffonio 029 2087 2720.

## Staff

Yn ddiweddar cyhoeddodd Karen Gittins, y Brifathrawes Weithredol gynlluniau sydd ar droed wrth ddatblygu strwythur staffio newydd a chwricwlwm ar gyfer Medi 2014.

Dywedodd Karen "Mae'r broses recriwtio yn mynd rhagddo'n dda ac rwy'n falch o gyhoeddi'r penodiadau canlynol i'r Tîm Arwain Strategol: Mrs Wendy Rees – Y Pennaeth Cysylltiol, a'r pedwar Pennaeth Cynorthwyol – Mr Steve Bell, Mrs Lynne Purkis, Mr Jon Delf a Mr Ian Jones. Mae hwn yn gyfnod cyffrous iawn yn natblygiad yr ysgol newydd, a bydd y tîm yn gweithio gyda mi dros y misoedd i ddod i sicrhau bod y broses drosglwyddo yn ddidrafferth ac yn llwyddiannus. Bydd y broses o benodi staff yn parhau yn y flwyddyn newydd, a bydd y staff yn dechrau yn eu swyddi ym mis Medi 2014. Byddaf yn rhoi'r newyddion diweddaraf i chi dros y misoedd i ddod, ond os hoffech godi neu drafod unrhyw faterion mae croeso i chi gysylltu â mi yn yr Ysgol."

Dywedodd Karen, "Dw i wedi fy ymrwymo i greu tîm arweinyddiaeth strategol er mwyn cefnogi'r ysgol a'i disgyblion i symud ymlaen. Yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain mae yna wir gyffro. Mae yna gred bod newid cadarnhaol yn digwydd. Mae buddsoddi yn un o'n hasedau mwyaf - ein staff, dw i'n credu, yn hanfodol, ac felly dw i eisiau creu strwythur sy'n cynnig cynnydd mewn gyrfaoedd a dyheadau staff, a fydd o fudd i bawb. Dw i angen tîm cryf i ddatblygu ac ymestyn y cwricwlwm. Gwnaf ei ddweud eto, mae'n amser cyffrous a dw i eisiau eleni fod y flwyddyn orau erioed am ganlyniadau ar gyfer ein disgyblion."

Dywedodd Wendy Rees, "Mae'r staff wedi bod yn anhygoel. Bu cymaint o newid ac ansicrwydd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ac mae'r rhan fwyaf ohonyn nhw wedi aros oherwydd eu bod yn credu yn yr ysgol a'r gymuned. Mae'n dda gweld bod y recriwtio ar gyfer yr ysgol newydd yn dod yn ei flaen fel bod y staff yn gwybod lle fyddan nhw cyn gynted ag sy'n bosibl."

Y DIWEDDARAF AM YSGOL Y DWYRAIN

Y Diweddaraf am Ysgol y Dwyrain

## Gwefan Ysgol Uwchradd y Dwyrain ar ei Newydd Wedd

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn datblygu gwefan newydd sbon. Er mwyn sicrhau ei bod yn cwrdd â'ch anghenion, byddai'r ysgol yn croesawu adborth ar beth yr hoffech ei weld arni.

Anfonwch e-bost am eich syniadau at **CJ@rumney.cardiff.sch.uk** neu **PMadell@llanrumney.cardiff.sch.uk**

## Llogi Ysgubor Ysgol Uwchradd y Dwyrain

Os ydych yn chwilio am leoliad addas i gynnal parti, digwyddiad neu weithgarwch chwaraeon, mae gan yr ysgol gyfleoedd dyddiol i logi ysgubor yr ysgol sydd yn ogystal yn cynnwys y penwythnosau.

Yr amseroedd yw o **5.00 i 9.00pm** (Llun-Gwen)
Y gost o logi yw **£20.00** yr awr.

Yn ogystal. gall preswylwyr sydd heb blant yn yr ysgol ei llogi. Os hoffech ddarganfod mwy cysylltwch â'r ysgol os gwelwch yn dda ar **2079 2751.**

## Rhestr Brisiau Gwisg Ysgol Uwchradd y Dwyrain 2013

| | | |
|---|---|---|
| Blaser â Bathodyn (Blaser ar Fesur i Ferched a Blaser Syth i Fechgyn | 28, 30, 32, 34, 36, 38, 40, 42, 44, 46, | £24.00 £28.00 |
| Siwmper wedi'i Gwau (Steiliau gwahanol i Fechgyn a Merched) | 9,10, 11,12 S, M, L, XL, XXL | £13.00 (all sizes) |
| Tei ysgol | 45" 52" | £4.50 £5.00 |
| Crys-T Addysg Gorfforol â Bathodyn (I Fechgyn) | JS,JM,JL,JXL S, M, L, XL, XXL | £13.00 (pob maint) |
| Siorts Addysg Gorfforol Du â Bathodyn (Steiliau gwahanol i Fechgyn a Merched) | JS,JM,JL S, M, L, XL | £8.50 (pob maint) |
| Crys Rygbi â Bathodyn | JS,JM, JL S, M, L, XL | £16.00 £17.00 £18.00 |
| Crys Polo Addysg Gorfforol â Bathodyn (I Ferched) | JS,JM,JL S, M, L, XL | £13.00 (pob maint) |
| Sgert â Bathodyn | S,JM,JL S, M, L, XL | £15.00 £15.50 |
| Sanau Rygbi Du/Gwyn | 3-6 7-12 | £3.50 £3.95 |

YC Sports
90 Crwys Road
Cathays
Caerdydd
CF24 4NP

**Ffôn**: 029 2023 7968
**E-bost**: sales@ycsports.com

**Prynwch ar-lein yn:**
www.ycschoolwear.co.uk

Mae YC Sports hefyd yn gwerthu trowsus ysgol i fechgyn (o £9.99) a merched (o £10.99), crysau a choler i fechgyn (o £9.99) a blowsys i ferched (o £9.99).

Mae meintiau mwy a llai ar gael ar gais

## Os oes gennych gwestiwn – cysylltwch

Os oes gennych gwestiwn neu os ydych eisiau dweud wrthym beth yr ydych yn ei feddwl, cysylltwch yn uniongyrchol â ni ac fe wnawn ein gorau i roi ateb i chi. Gallwch ein ffonio ar **029 2079 2751** neu anfonwch e-bost at **schooladmin@rumney.cardiff.sch.uk**

Y DIWEDDARAF AM YSGOL Y DWYRAIN